



**CYNGOR CAERDYDD  
CARDIFF COUNCIL  
Adroddiad Blynyddol i  
Aelodau Etholedig 2018  
Annual Report for Elected  
Members 2018**

**Cynghorydd:/ Councillor: Rod McKerlich    Plaid/ Party: Y Blaid  
Geidwadol**

**Ward: Radur a Phentre-poeth    Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected:  
1 May 2008**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Penodi, Pwyllgor Cyfansoddiad, Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd a'r Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad.

Fel aelod o'r Grŵp Ceidwadol, fi yw'r Prif Chwip a llefarydd y grŵp ar Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: [Presenoldeb](#)  
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: [Dysgu](#)

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth a Chadeirydd Cyllid; rwy'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Radur ac Ysgol Uwchradd Radur. Mae fy aelodaethau lleol yn cynnwys Clwb Golf Radur (cyn-gapten), Clwb Tennis Radur (cyn-gadeirydd), Clwb Criced Radur a Chymdeithas Radur a Phentre-poeth. Yn ystod Gŵyl Radur, mynychais i a fy ngwraig nifer o ddigwyddiadau a gydol y flwyddyn mae gennym ddigwyddiadau a gynhelir gan grwpiau cerdd a drama'r plwyf.

Bob mis ro'n i'n cynhyrchu adroddiad misol, oedd yn cael ei drafod gan y cyngor cymuned ac yn cael ei ddsbarthu i breswylwyr trwy'r wefan leol neu ei anfon yn uniongyrchol ar gais dros e-bost. Rwy'n cwrdd â phreswylwyr mewn cymorthfeydd ward, drwy gerdded o amgylch y ward neu pan fyddant yn dod i gwrdd â mi neu'n anfon e-byst ataf am waith achos, (y byddaf yn rhoi sylw cynnar a gofalus iddo). Mae Radur a Phentre-poeth, gyda dros 5000 o etholwyr, yn fawr am ward aelodau unigol; mae'n hanfodol defnyddio'r holl dechnegau hyn i allu diwallu eu hanghenion niferus ac amrywiol.

## **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae cyfarfodydd PACT yn bwynt cyswllt pwysig gyda phreswylwyr a'r heddlu; mynychais y cyfarfodydd hyn a'u cadeirio ar y cyd gyda'r swyddog heddlu lleol. Mae materion priffyrdd wastad wedi bod yn bwysig ond daethant yn bwysicach fyth wrth i'r cynllun datblygu lleol ddechrau cynyddu graddfa a natur traffig lleol. O wrando ar breswylwyr lleol a cheisio lliniaru problemau a fynegwyd daeth yn amlwg bod angen ymgysylltu â swyddogion y cyngor a datblygwyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau; bydd angen bod yn gyson ac yn amyneddgar.

## **Gweithgareddau / Materion Eraill**

Yn fy ngwaith gyda'r cyngor cymuned, fe wnaethon ni geisio cynorthwyo clybiau i'r ifanc a rhoi cymorth i'r henoed. Fe wnaethon ni hefyd gomisiynu adroddiadau ar y coedlannau a'r parciau dan reolaeth Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth; yna fe wnaethon ni bleidleisio ar y cyllid oedd ei angen i'w gwneud yn ddiogelach ac yn fwy deniadol.

**Cynghorydd: Rod McKerlich**